Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: mesurau arbennig

**Ysgol Uwchradd Aberhonddu**
**Penlan**
**Aberhonddu**
**Powys**
**LD3 9SR**

**Dyddiad yr ymweliad: Tachwedd 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Sue Halliwell | Arolygydd Cofnodol |
| Lowri Jones | Arolygydd Tîm |
| Tony Sparks | Arolygydd Tîm |
| Anne Morris | Arolygydd Tîm |
| Jayne Edwards | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad y monitro

Bernir bod Ysgol Uwchradd Aberhonddu wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym mis Mai 2012.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu enw'r ysgol o'r rhestr o ysgolion y mae angen gweithredu mesurau arbennig ynddynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Codi safonau yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, yn enwedig mewn gwyddoniaeth, Cymraeg ail iaith a pherfformiad bechgyn

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, bu tuedd o welliant mewn safonau.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae trothwy lefel 2, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, wedi gwella dros 12 pwynt canran ers 2012. Mae perfformiad yn 2016 yn gosod yr ysgol uwchlaw deilliannau wedi'u modelu ac yn yr 50% uwch o ysgolion tebyg ar sail cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim. Yn yr un modd, fe wnaeth perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd wella eto yn 2016 ac mae'n gosod yr ysgol yn yr 50% is o ysgolion tebyg ar sail cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn welliant o gymharu â'r tair blynedd flaenorol, pan yr oedd perfformiad wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg.

Yn 2016, fe wnaeth perfformiad yn nhrothwyon lefel 1 a lefel 2 wella ond mae'r ddau'n parhau ymhlith y 25% isaf o ysgolion tebyg. Fe wnaeth perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio wella hefyd. Mae'n parhau islaw deilliannau wedi'u modelu ac mae'n gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion ar sail cymhwysedd am brydau ysgol am ddim.

Mae'r cyfraddau mynediad a'r nifer sy'n cyflawni cymhwyster lefel 2 mewn Cymraeg wedi gwella'n sylweddol. Yn 2012, cyflwynwyd 79% o'r garfan ar gyfer cymhwyster mewn Cymraeg. Yn 2016, mae hyn wedi cynyddu i 97% o'r garfan. Yn 2016, enillodd 91% o ddisgyblion radd C o leiaf mewn Cymraeg mamiaith neu yn y cwrs Cymraeg ail iaith llawn. Mae hyn yn nodwedd gref.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad bechgyn wedi dangos gwelliant cryf yn y rhan fwyaf o ddangosyddion ers yr arolygiad craidd. Mae'r bwlch rhwng eu perfformiad nhw a pherfformiad y merched yn yr ysgol wedi lleihau. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o ddangosyddion, nid yw bechgyn a merched yn perfformio cystal â bechgyn a merched mewn ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd wedi gwella'n dda ers yr arolygiad craidd ym Mai 2012 ac mae wedi bod uwchlaw deilliannau wedi'u modelu am y tair blynedd diwethaf. Fe wnaeth perfformiad osod yr ysgol yn yr 50% uwch o ysgolion tebyg yn 2014 a 2015 ac, yn 2016, mae'n gosod yr ysgol yn y 25% uchaf.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblon agwedd gadarnhaol at eu dysgu ac maent yn awyddus i wella'u gwaith. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas ym mwyafrif eu gwersi. Gallant adalw dysgu blaenorol yn dda iawn a'i gymhwyso i dasgau newydd yn dda. Mae llawer ohonynt yn arddangos medrau dysgu annibynnol cadarn ac yn cynnal eu canolbwyntio'n dda. Maent yn gweithio'n llwyddiannus mewn grwpiau ac mewn parau.

Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau darllen cadarn. Maent yn tynnu gwybodaeth berthnasol o destunau yn effeithiol. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn casglu ystyr ac yn dod i gasgliadau defnyddiol trwy amrywiaeth helaeth o ddeunyddiau ffynhonnell. Mae mwyafrif y disgyblion yn darllen ar goedd yn hyderus.

Mae llawer o ddisgyblion yn trefnu'u gwaith ysgrifenedig yn dda ac yn ysgrifennu'n gywir. Mae ganddynt eirfa eang ac amrywiol a defnyddiant derminoleg sy'n benodol i bwnc yn briodol.

Mae llawer o ddisgyblion yn siaradwyr hyderus ac yn cymryd rhan frwdfrydig mewn trafodaethau dosbarth. Rhoddant atebion ystyrlon a rhesymegol, ac mae ychydig yn cynnig ymatebion aeddfed a meddylgar iawn. Mae llawer o ddisgyblion yn awyddus i ofyn cwestiynau ac mae ychydig ddisgyblion yn gofyn cwestiynau deallus a pherthnasol iawn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac ar yr athro.

Mae amgyffrediad cadarn o rifedd sylfaenol gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ac maent yn gweithio drwy broblemau'n drefnus. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn llunio graffiau'n gywir.

Mae llawer yn ysgrifennu mewn Cymraeg gyda chryn gywirdeb ac yn defnyddio gwahanol amserau'r ferf yn briodol. Mae gan lawer ohonynt ynganiad da ac maent yn siarad Cymraeg yn hyderus.

**Argymhelliad 2: Gwella presenoldeb**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers adeg yr arolygiad craidd, mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella'n dda iawn. Cyfradd bresenoldeb yr ysgol yn 2015-2016 yw 95.3%, sy'n cyd-fynd â deilliannau wedi'u modelu am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae'r gyfradd bresenoldeb yn gosod yr ysgol yn yr 50% uwch o ysgolion tebyg ar sail cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim.

Bu'r ysgol yn llwyddiannus iawn yn cau'r bwlch rhwng presenoldeb bechgyn a merched. Yn 2016, am yr ail flwyddyn yn olynol, mae presenoldeb merched yn cyfateb i bresenoldeb bechgyn ac mae'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer merched mewn ysgolion tebyg.

Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella'n dda ac mae'n ddau bwynt canran yn uwch nag yr oedd ar adeg yr arolygiad craidd.

Mae absenoldeb cyson wedi gostwng yn sylweddol ers yr arolygiad craidd. Am y tair blynedd diwethaf, bu'n is na'r cyfartaledd ar gyfer yr awdurdod lleol a Chymru.

**Argymhelliad 3: Cynyddu her addysgu i gyd-fynd â'r her a welir yn y gwersi gorau**

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi gweithio'n effeithiol i wella ansawdd addysgu. Mae hyn wedi cyfrannu at welliannau mewn safonau yng nghyfnod allweddol 3 ac yn y rhan fwyaf o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cael digon o effaith ar gynnydd disgyblion yn gyffredinol ac, mewn lleiafrif o wersi, mae lefel yr her yn parhau'n rhy isel.

Mae gan yr ysgol raglen addas o weithgareddau sicrhau ansawdd a datblygiad proffesiynol i gefnogi gwelliannau mewn addysgu. O ganlyniad, mae athrawon yn fyfyriol ynghylch eu gwaith ac yn rhannu arfer dda yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw rhaglen hyfforddi'r ysgol yn canolbwyntio'n ddigon manwl ar yr agweddau ar addysgu y mae angen y gwelliant mwyaf arnynt, fel darparu lefel briodol o her i ddisgyblion o bob gallu.

Mae gan lawer o athrawon wybodaeth gadarn am eu pwnc. Rhoddant gymorth defnyddiol i ddisgyblion yn ystod gwersi ac maent yn meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol. Ym mwyafrif y gwersi, mae athrawon yn cynllunio'n briodol ac yn darparu gweithgareddau sy'n adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol disgyblion. Maent yn holi disgyblion yn effeithiol ac yn paru gweithgareddau ag anghenion a diddordebau disgyblion o wahanol alluoedd yn dda. Yn y gwersi hyn, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas.

Mewn lleiafrif o wersi, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel ynghylch yr hyn y gall disgyblion ei gyflawni. O ganlyniad, nid yw lefel yr her a chyflymder y dysgu yn briodol. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon yn gwirio cynnydd a dealltwriaeth disgyblion yn ddigon trylwyr, ac felly nid ydynt yn gwybod pryd maent yn barod i symud ymlaen. Yn y gwersi hyn, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd.

**Argymhelliad 4: Gwella ansawdd a chysondeb y marcio a'r adborth a roddir i ddisgyblion**

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae ansawdd a chysondeb adborth ysgrifenedig i ddisgyblion wedi gwella ers yr arolygiad craidd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd gwaith disgyblion ac mae'n dechrau gwella safonau.

Mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio dull Adborth, Gweithredu, Ymateb o farcio mewn ffordd gyson a phwrpasol. Mae'r rhan fwyaf o sylwadau 'gweithredu' athrawon yn rhoi arweiniad clir ar sut gall disgyblion wella'u gwaith ac yn rhoi camau gweithredu defnyddiol, penodol i bwnc, ar gyfer gwella. Fodd bynnag, wrth farcio ar gyfer llythrennedd, mae lleiafrif o athrawon yn talu sylw dyledus i gywirdeb technegol ond dim digon i wella cynnwys ac effeithiolrwydd yr ysgrifennu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i bwyntiau gweithredu gan athrawon ac yn datblygu eu gwaith yn briodol. Fodd bynnag, cadarnhau y byddant yn mynd i'r afael â'r pwynt yn unig y mae nifer bach iawn o ddisgyblion, yn hytrach na dangos sut y byddant yn gwella. Pan fydd y marcio yn effeithiol, mae disgyblion ac athrawon yn cymryd rhan mewn trafodaeth adeiladol ynghylch sut y gellir gwella'r gwaith.

Er bod y rhan fwyaf o athrawon yn gofyn i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cymheiriaid yn rheolaidd, mae'r cyd-destunau'n aml yn amhriodol ac nid ydynt yn datgan y meini prawf llwyddiant yn glir. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn cael trafferth gwneud sylwadau buddiol neu osod targedau ystyrlon ar gyfer gwella.

**Argymhelliad 5: Cynyddu atebolrwydd uwch reolwyr a rheolwyr canol am wella safonau ac ansawdd, trwy drefniadau rheoli llinell trylwyr**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers adeg yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'w threfniadau ar gyfer dwyn uwch arweinwyr ac arweinwyr canol i gyfrif. Mae hyn wedi ategu gwelliannau mewn agweddau pwysig ar waith yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys presenoldeb disgyblion ac, yn 2015 a 2016 yn benodol, eu perfformiad yn y dangosyddion sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg. Fodd bynnag, ers yr arolygiad craidd, erbyn diwedd cyfnod allweddol 4, mae disgyblion yn gwneud cynnydd amrywiol mewn llawer o ddangosyddion perfformiad.

Mae'r uwch dîm arwain yn cynnig cydbwysedd buddiol o gefnogaeth a her i'w gilydd ac i arweinwyr canol. Mae cyfarfodydd rheoli llinell yn mynd i'r afael â safonau, addysgu a dysgu, ac arweinyddiaeth yn gynyddol gyson. Mae agenda gyffredin a phwyntiau gweithredu clir ar y cyfan o'r cyfarfodydd hyn yn cynnig fframwaith priodol o drylwyr ar gyfer gwella ymhellach. Bellach, mae'r ysgol wedi cyflwyno proses addas i sicrhau ansawdd y cyfarfodydd hyn. Mae'r broses hon yn sicrhau eu bod yn canolbwyntio'n ddigon da ar y blaenoriaethau cyffredin, cytunedig a'u bod yn rhoi camau gweithredu ar waith i sicrhau'r gwelliannau gofynnol.

Bellach, mae gan y rhan fwyaf o'r arweinwyr canol ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldeb am godi safonau. Mae llawer ohonynt yn defnyddio data disgyblion yn addas i adolygu perfformiad eu timau a chynllunio ar gyfer gwelliannau pellach.

**Argymhelliad 6: Gwella craffter ac eglurder cynllunio gwelliant ar bob lefel, gan ddefnyddio targedau penodol a mesuradwy**

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd defnyddiol wrth wella ansawdd cynlluniau gwella'r ysgol a chynlluniau gwella adrannau.

Mae prosesau hunanarfarnu sy'n arwain at well cynllunio yn datblygu'n briodol ac yn dechrau gwreiddio ar draws yr ysgol. Mae'r broses newydd o arfarnu'r ysgol gyfan wedi galluogi'r ysgol i osod targedau, camau gweithredu a meini prawf llwyddiant ar

gyfer gwella sydd â ffocws addas ac sy'n fesuradwy. Mae arsylwi gwersi, teithiau dysgu a chraffu ar waith mewn parau yn galluogi arweinwyr i rannu arfer dda yn briodol. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid yw craffu ar waith yn benodol yn canolbwyntio'n ddigon da ar safonau a chynnydd disgyblion.

Mae cynllun datblygu'r ysgol gyfan yn cael ei adolygu'n rheolaidd a chaiff dadansoddiad cynhwysfawr o ddata ei ddefnyddio'n dda i ddylanwadu ar osod targedau ysgol-gyfan.

Mae arweinwyr canol wedi cael eu cefnogi'n dda i ddatblygu hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella. Mae llawer ohonynt yn dadansoddi data a deilliannau gweithgareddau hunanarfarnu mewn modd defnyddiol i amlygu meysydd i'w gwella. Gosodant dargedau a meini prawf llwyddiant clir, mesuradwy. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o gynlluniau datblygu adrannol, nid yw'r camau gweithredu'n ddigon trylwyr na manwl i ysgogi'r gwelliannau y mae eu hangen mewn addysgu a dysgu.

**Argymhelliad 7: Cynllunio i ddatrys y diffyg yn y gyllideb yn effeithiol**

Ni roddwyd barn

Ar adeg yr arolygiad craidd, roedd gan yr ysgol broblemau cyllidebol arwyddocaol. Erbyn 2013, roedd yr ysgol wedi gwneud cynnydd da iawn i ddatrys y diffyg yn y gyllideb.

Bernir bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd digonol o ran yr argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym Mai 2012. Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r ysgol wedi rheoli ei chyllideb yn effeithiol. Fodd bynnag, mae'r ffigurau amcanol ar gyfer y tair blynedd nesaf yn awgrymu bod yr ysgol eto'n wynebu diffyg cynyddol yn ei chyllideb. Gallai'r gostyngiad yn y nifer ar y gofrestr a'r sefyllfa ariannol sy'n gwaethygu leihau gallu'r ysgol i gynnal y cynnydd a wnaed dros y pedair blynedd diwethaf.

**Argymhelliad 8: Bodloni gofynion statudol ar gyfer y weithred ddyddiol o gyd-addoli**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol i ddarparu gweithred ddyddiol o gyd-addoli.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r ysgol barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd.